**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**4/4/23**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Euros Roberts (Is-gadeirydd) *(ffôn)*, Llinos Edwards, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Alwyn M Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

2484 **Croesawyd** pawb a llongyfarchodd y Cadeirydd cyn aelod o'r Cyngor, Branwen Williams, ar enedigaeth ei mab. Estynnodd longyfarchiadau'r Cyngor i Huw Antur ar ei ymddeoliad fel Pennaeth Glan-llyn, ac ar ei benodiad fel Swyddog Bro Cyngor Gwynedd yn ardal Penllyn. Roedd y Cadeirydd wedi derbyn neges o'r Gaiman fod perchennog Tŷ Te yn dod a dogfennau cyfeillio efo hi i'w cyflwyno i'r Cyngor. Bydd angen trefnu croesawu pan fyddant yn cyrraedd Llanuwchllyn.
Diolchwyd i Dewi Wyn Jones am ymdrechu i gysylltu a'r system we yn y Neuadd. Roedd pawb yn gytûn fod angen system mwy hylaw, a hwnnw'n cyrraedd yr Ystafell Bwyllgor. Ymddiheurwyd i Euros Roberts fod angen iddo wrando ar y ffôn yn hytrach nag ar Zoom. **Cytunwyd** i edrych mewn i gael gwell darpariaeth digidol ac i drafod gyda swyddogion y Neuadd.

2485 **Ymddiheuriadau:** Heledd Jones, Huw Antur

2486 **Datganiadau o fuddiant** - dim

2487 **Cofnodion cyfarfod 7/3/23:** Cadarnhawyd eu cywirdeb

2488 **Materion y Clerc**:

- **i.** Llwybr Cei: Mae Warden Penllyn y parhau i geisio cael y gwaith wedi ei gwblhau ar ben y llwybr wrth yr Hen Gapel. Mae hefyd yn awyddus i ail-wynebu nes at y pen wrth y giât.
- **ii.** Heddlu : mynychodd y Clerc y cyfarfod ar 10/3/23; roedd addewidion i gadw llygad ar ffordd Llangywer. Anogwyd Cynghorwyr i sôn wrth amaethwyr i roi gwybod i'r Heddlu ar unwaith os welant arwyddion fod rhyw rai yn trefnu *rave* e.e. arwyddion neu rubanau ar wrychoedd, dieithriaid yn "mapio'r" ardal. Roedd yn bryder deall cyn lleied o staff sydd gan yr Heddlu trwy Ddwyfor-Meirionnydd, yn arbennig gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- **iii.** Camerâu Cylch Cyfyng – trefnwyd cyfarfod gyda Chris Livesey ar 6/6/23.

2489 **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Gwynedd a soniodd fel y bu'n ceisio trafod uwchraddio'r system gyda Dwr Cymru; deellir fod cais wedi ei wneud am gyllid i wella'r is-adeiledd. Tynnodd sylw at safon wael y gwaith trwsio'r ffordd yn dilyn gweithio ar bibellau, megis wrth Ty'n Ddôl .

Derbyniodd gwybodaeth fod Adran Y Priffyrdd wedi dod o hyd i fapiau o ddiwedd yr 19 ganrif sy'n amlygu mai tir y Cyngor sydd o gwmpas y Bont Newydd; disgwylir e-bost ganddynt i ddweud fod y mater mewn llaw.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Alan Jones Evans am ei waith.

**2490 Is-bwyllgorau**

1. Grwp Datblygu - bydd y Grŵp yn cyfarfod yn fuan i drafod Adolygiad Drafft Cynllun Datblygu Parc Cenedlaethol Eryri
2. Mynwentydd – bydd cyfarfod i dacluso yn digwydd ar ôl y Pasg. Mae Rhydian Roberts wedi ymateb yn gadarnhaol i osod goleuadau ar y ffordd er mwyn i waith cael ei wneud ar wal y fynwent; bydd hyn yn digwydd ar ôl y Pasg. Cafwyd ymholiad am gladdu llwch yn unig; bydd yr is-bwyllgor yn trafod ffioedd gwneud hyn.
3. Bioamrywiaeth – wedi cynnal trafodaethau e-bost ac wedi cytuno i ofyn am gymorth Cynghorwyr a chyhoedd i osod a dyfrio twba blodau mewn mannau ar hyd y pentref - megis wrth y llochesi bws, wrth arwydd y pentref ac wrth y Gilfach Goffa. Bydd angen arweiniad Parc Cenedlaethol Eryri ar hau unrhyw flodau gwyllt. Mae coed drain gwynion ar gael i'w plannu. Gofynnir i is-bwyllgor y fynwent a ydynt yn barod i neilltuo rhan o'r fynwent ar gyfer bioamrywiaeth (efo arwydd yn egluro). Efallai fod ardal y ciosg yn cynnig ei hun hefyd. Holwyd a oes cyfle i blannu mwy o Gennin Pedr. Awgrymwyd llwyni lliwiau tawel ar y ffordd mewn i faes parcio'r fynwent. Gellir gwneud defnydd o deiars tractor. Gwnaethpwyd apêl am gymorth yn gyffredinol.
4. Nadolig – heb gyfarfod.
5. Asedau -heb gyfarfod. Diolchwyd i Alwyn E Jones am y weledigaeth o osod bocsys casglu yn y cyfleusterau gan fod y cyfraniadau yn gymorth i'w cadw ar agor.
6. Cyllid – derbyniwyd cofnodion yr is-bwyllgor a mynegwyd balchder fod y gyllideb a'r sefyllfa diwedd y flwyddyn yn agos iawn i'w gilydd; disgwylir anfonebau gan Archwilio Cymru am y ddwy flynedd diwethaf, ac nid yw'r gwaith ar giât Llwybr Cei wedi ei gwblhau eto. Sylwyd yn fanwl ar daliadau a derbyniadau'r Cyfleusterau Cyhoeddus a chafwyd y sefyllfa'n foddhaol.

**2491 Materion Ariannol:** Cymeradwywyd anfonebau'r mis, sef

| | |
|---|---|
| **Cyfraniadau** | |
| Cymunedol | £1750.00 |
| Cyfraniad i'r Neuadd | £750.00 |
| <u>Derbyniadau'r Noson Goffi i :</u> | |
| Ambiwlans Awyr | £100.00 |
| DEC Daeargryn Twrci-Syria | £110.00 |
| | |
| **Anfonebau** | |
| CCF – toiledau | £65.69 |
| Trwsio toiledau | £60.00 |
| Coeden Dolig | £66.00 |
| Tanwydd Nadolig | £20.00 |
| Zoom – traean | £47.96 |

**Cytundebau a CTheF:** Cyfanswm: £971.80

**2492 Cwmni Pum Plwy Penllyn** Adroddodd y cynrychiolwyr y derbyniwyd grant arall i wneud mwy o waith gyda'r henoed a'r ieuenctid.

**2493 Cynllunio:** Ystyriwyd y ceisiadau canlynol

i. NP5/71/269M Ail-strwythuro ac uwchraddio 15 o leiniau unedau teithiol presennol i gynllun tirlunio dwysedd is yn cynnwys 5 carafán deithiol/cartref modur a 10 pabell (cynllun diwygiedig) Bwch yn Uchaf, Llanuwchllyn. LL23 7DD. **Cytunwyd i** anfon yr un ymateb a Gorffennaf 2022 a oedd yn egluro mai hawl i 5 carafán sydd ar y safle wrth y tŷ.

ii. NP5/71/106A Adeiladu anecs parod unllawr mewn pren ar gyfer defnydd preswyl atodol yn gysylltiedig â'r annedd Yr Hen Felin, Llanuwchllyn, LL23 7TL – **cymeradwywyd.**

iii. **NP5/71/497** Adeiladu estyniad unllawr yn y cefn 27 Maes y Pandy, Llanuwchllyn. LL23 7TR – **cymeradwywyd.**

**2494 Gohebiaeth:**

**i.** **Llywodraeth Cymru ;** Nodwyd derbyn Datganiad Ysgrifenedig: Iechyd Digidol Cynghorau Cymuned a Thref
ii. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Cymeradwywyd Ymgynghoriad Cynllun Adnoddau Coedwig - Mawddach ac Wnion
iii. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Nodwyd derbyn Adolygiad Datganiad Ardal
iv. **Un Llais Cymru:** Nodwyd derbyn Dyddiadau hyfforddiant
v. **Llywodraeth Cymru** Nodwyd derbyn gohebiaeth am Grantiau Loteri ar gyfer coetiroedd bychain
vi. **Cyngor Gwynedd:** Nodwyd derbyn grant unigrwydd (ar gyfer mudiadau – nid cynghorau)
vii. **Llywodraeth Cymru:** Nodwyd derbyn Ymgynghoriad ar safonau moesegol Llywodraeth Leol
viii. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Adroddiad Adolygu Drafft Cynllun Datblygu Lleol Eryri (ymateb erbyn 12/5/23): bydd y Grŵp Ardal yn trafod hwn.

**2495 Materion lleol y Cynghorwyr:** Derbyniwyd neges fod sbwriel wedi ei luchio'n slei bach wrth loches bws Ty'n Ddôl a chytunodd Alwyn E Jones i'w glirio. Dywedodd y Cynghorydd Alan Jones Evans y byddai'n sôn wrth y Tîm Tacluso am yr angen i dorri'r gordyfiant.

Mae dŵr yn dal i sefyll at Lwybr Tegid; mae Alwyn M Roberts wedi gwneud ymholiadau i lenwi'r lle gyda cherrig.

**2496 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf, yn cynnwys y Cyfarfod Blynyddol**: 2/5/23 yn y Neuadd Bentref.